# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 12-08 Papur 1 : 23 Gorffennaf 2008

### P-03-107 Papur Dyddiol Cymraeg

### Geiriad y Ddeiseb

Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Gymru'n Un:'Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg'Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb yma gan Cymdeithas yr Iaith Cymraeg. Mae’r sefydliad wedi casglu dros 1,000 o enwau mewn cyfnod o bythefnos. Y prif ddeisebwr ydi Hywel Griffiths, Cadair Cymdeithas yr Iaith Cymraeg.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Mae’r Gweinidog wedi ymateb, a rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r ymateb ar 11 Mehefin 2008.

**Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**